Eitem: 26-03-18

| | |
|---|---|
| **Enw'r Pwyllgor:** | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| **Cadeirydd y Pwyllgor:** | Karen Lewis |
| **Cyfnod Adrodd:** | Cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2025 a 04 Mawrth 2026 |

**Penderfyniadau allweddol a materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor**

**Adroddiad diweddaru sicrwydd ar gynllun gweithredu digidol, seiber/TG**

Derbyniodd y pwyllgor ddiweddariad trylwyr ar seiberddiogelwch. Adolygodd yr archwiliad iechyd TG a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2025 4 maes allweddol, a oedd yn cwmpasu 29 o eitemau i gyd. Cafodd cyfres o gamau adferol eu holrhain a'u monitro.

Roedd y gwiriad Iechyd TG wedi'i gwblhau i 95% ar 04 Mawrth 2026. Cyflawnwyd Cyber essentials plus ar 27 Ionawr 2026 a chynhaliwyd hyfforddiant seiberddiogelwch ym mis Ionawr 2026. Roedd canlyniadau profion gwe-rwydo wedi gwella ac roedd Archwilio Mewnol wedi canolbwyntio ar wydnwch seiber tan fis Mawrth 2026.

Nododd y pwyllgor y cynnydd ar CymruSOC.
Roedd y pwyllgor yn fodlon ac yn hyderus gyda'r holl waith a wnaed.

**Fframwaith sicrwydd llywodraethu'r bwrdd**
**Rheolau Sefydlog**
Cynhaliwyd adolygiad o Reolau Sefydlog Llais. Nododd y pwyllgor fod y sefydliad yn gwneud yn dda iawn ac wedi rhagori ar rai o'r darpariaethau, er bod meysydd wedi'u hamlinellu lle'r oedd angen newidiadau i'r geiriad yn dilyn newidiadau strwythur.

**Cynllun Dirprwyo**
Nododd y pwyllgor fod angen rhai newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo, yn dilyn ymadawiad Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau a Gweithrediadau Corfforaethol a'r gwelliannau a'r newidiadau a wnaed i strwythur yr uwch reolwyr o ganlyniad.

**Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog**
Cadarnhaodd y pwyllgor y byddai'r papur yn cael ei gymeradwyo yn dilyn pwyntiau pellach wedi'u hychwanegu at yr adran gaffael i'w gwneud yn gliriach, yn amodol ar unrhyw sylwadau'n cael eu gwneud yn dilyn y cyfarfod.

**Adroddiad cynnydd a rheoli risg y Gwasanaethau Archwilio Mewnol**
Nododd y pwyllgor fod adroddiad cadarnhaol wedi'i dderbyn a bod sicrwydd rhesymol wedi'i roi ar y cyfan gyda 2 amcan allweddol.

**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2025/2026**
Roedd y pwyllgor yn fodlon mai Mehefin 2026 yw'r dyddiad cau newydd, a oedd yn cyd-fynd â chyrff eraill. Fel arfer, mae Llais yn adrodd ym mis Awst, ond roedd yr amserlen a gyflwynwyd yn dangos aeddfedrwydd cynyddol y sefydliad. Mae archwiliad interim i'w gynnal ym mis Mawrth 2026 ac roedd gweithgorau'n cael eu sefydlu.

Myfyriodd y pwyllgor hefyd ar y drafodaeth risg a gynhaliwyd yn y bore ar 04 Mawrth 2026 a chytunodd pawb ei bod wedi cael derbyniad da ac yn ddefnyddiol i'r mynychwyr.

**Materion sydd angen cymeradwyaeth neu ystyriaeth ar lefel y Bwrdd**

- **Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog –** Cymeradwyodd y pwyllgor y ddogfen i'w chyflwyno i'r Bwrdd i'w chymeradwyo.

**Materion eraill**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

**Busnes y pwyllgor wedi'i gynllunio ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf**

Bydd y pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio ar ei eitemau sefydlog arferol, a'i raglen waith arfaethedig gan gynnwys:

- Ystyried adroddiad ar ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o archwilio mewnol ac unrhyw adroddiadau a chraffu wedi'u cwblhau ar y traciwr archwilio
- Adroddiad diweddaru ar ddatblygiadau digidol, TG a seiber
- Fframwaith Llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd - adolygiad
- Adroddiad adolygu ar Reolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynllun Dirprwyo
- Adroddiadau arferol - Adborth, pryderon a chwynion, diweddariad ar anrhegion a lletygarwch a diweddariad ar ddatganiadau buddiant

**Eitem: 26-03-18**

| | |
|---|---|
| Dyddiad y cyfarfod nesaf – | Dydd Mercher 09 Mehefin 2026 |